# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 22.10.01

**R yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i'r Prif Weinidog

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa gamau gweithredu penodol y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i baratoi Cymru ar gyfer Cwpan Ryder 2010. (WAQ13207)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa isadeiledd y mae'r Gweinidog yn bwriadu ei gyflwyno o ganlyniad i ennill y cynnig ar gyfer Cwpan Ryder ar gyfer 2010. (WAQ13196)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa raddfeydd amser y mae'r Gweinidog wedi'u gosod ar gyfer y grwp gorchwyl a gorffen a gydgysylltwyd i adolygu effaith ysgogiadau cefnogi busnes. (WAQ13204)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu sicrhau bod y manteision economaidd o gynnal y Cwpan Ryder yn estyn y tu hwnt i Gasnewydd. (WAQ13205)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Dasglu'r Fforwm Pêl-droed. (WAQ13197)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch sut y mae'n disgwyl i Dasglu'r Fforwm Pêl-droed dderbyn tystiolaeth oddi wrth yr holl bartïon sydd â diddordeb. (WAQ13198)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y dewiswyd aelodau o Dasglu'r Fforwm Pêl-droed. (WAQ13199)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu defnyddio'r Cwpan Ryder fel cyfle i hyrwyddo chwaraeon a thwristiaeth yng Nghymru. (WAQ13206)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar faint o amser y mae'n disgwyl i Dasglu'r Fforwm Pêl-droed ei gymryd i ymateb i Adroddiad y Gweinidog. (WAQ13215)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa sicrwydd y gall y Gweinidog ei roi y bydd gwasanaethau a sefydlir gan daliadau ychwanegol unigryw yn parhau**.** (WAQ13200)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa sicrwydd y gall y Gweinidog ei roi y bydd gwasanaethau a sefydlir gan daliadau cyllido ychwanegol yn parhau. (WAQ13201)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog sylwadau ar effeithiau aildrefnu ymddiriedolaethau'r NHS ar greu arbedion ar lefel pob ymddiriedolaeth newydd. (WAQ13202)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog nodi'r costau sydd wedi codi yn sgil aildrefnu Ymddiriedolaethau'r NHS. (WAQ13203)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Gan nodi manylion yr arbedion ar lefel pob ymddiriedolaeth newydd, pa arbedion a gafwyd o ganlyniad i aildrefnu Ymddiriedolaethau'r NHS. (WAQ13216)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog sylwadau ar unrhyw gynlluniau i gyllido swyddogion datblygu amser llawn ar gyfer sefydliad y Sgowtiaid. (WAQ13208)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pryd bydd y Cynulliad yn cyhoeddi ei bolisi ar ysgolion gwledig. (WAQ13210)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sut y cafodd y Cynulliad wared ar y model maint llawn o Siambr Drafod y Cynulliad Cenedlaethol. (WAQ13209)